Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Canllaw i Uwch Brentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PRENTISIAETHAU.
DEWIS DOETH.

Coleg Cambria · Grŵp Llandrillo Menai · als · Cambrian Training / Hyfforddiant Cambrian · itec Skills and Employment · myrick · Prifysgol Bangor University · Prifysgol Glyndŵr Wrecsam / Wrexham Glyndŵr University · Prifysgol Abertawe / Swansea University · The Open University / Y Brifysgol Agored Wales Cymru



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Cynnwys


3. Canllaw i Uwch Brentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd

4. Beth yw Uwch Brentisiaeth a Phrentisiaeth Gradd?

5. Beth yw manteision Uwch Brentisiaeth neu Brentisiaeth Gradd?

6. Pam dewis Uwch Brentisiaeth neu Brentisiaeth Gradd

7. Llwybr Prentisiaeth

8. Beth sydd gan Gogledd Cymru i'w gynnig?

9. Astudiaethau Achos

10. Dechrau Arni

11. Cysylltwch â ni

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Canllaw i Uwch Brentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd

Croeso! Dyma gyflwyniad i lwybrau uwch brentisiaethau a phrentisiaethau gradd yng Ngogledd Cymru. Yma, gallwch ddod i wybod pam fod prentisiaethau wedi mynd yn ffordd fwy poblogaidd o gael mynediad i yrfa lwyddiannus a sut allwch chi ymuno neu gefnogi un o'r miloedd o unigolion sydd wrthi'n astudio fel prentisiaid ar hyn o bryd!

Mae prentisiaethau'n ffordd wych o gymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd yn uniongyrchol yn y gweithle.



Yn y gorffennol, mae prentisiaethau wedi bod yn gysylltiedig â'r diwydiannau Adeiladu. Heddiw, mae'r dewis o brentisiaethau yn llawer ehangach, gyda chyfleoedd ar draws nifer o sectorau diwydiannol.

Mae cyfleoedd prentisiaeth ar gael sy'n addas i bawb, ynghyd â sawl busnes, ar draws nifer o sectorau, waeth beth fo'ch dyheadau a'ch nodau yn eich gyrfa, felly beth am daro golwg ar beth sydd ar gael i chi fel unigolyn neu hyd yn oed fel cyflogwr?

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Beth yw Uwch Brentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd?

Fel sy'n wir am bob prentisiaeth, mae uwch brentisiaethau a phrentisiaethau gradd yn cyfuno hyfforddiant ymarferol wrth weithio ac astudio tuag at gymhwyster lefel uchel sy'n cael ei gydnabod yn y diwydiant.


## Uwch Brentisiaethau:

Mae uwch brentisiaethau'n cael eu cydnabod yn eang fel prentisiaethau lefel 4 a 5 ac yn gyfystyr â'r flwyddyn gyntaf o astudio yn y brifysgol neu am HNC lefel 4, neu radd sylfaen neu HND lefel 5.

Mae prentisiaethau lefel uwch yn ddewis amgen i astudiaethau academaidd addysg uwch traddodiadol i unigolion profiadol sy'n awyddus i fwrw ymlaen ymhellach â'u datblygiad proffesiynol.

## Prentisiaethau Gradd:

Mae Prentisiaethau Gradd yn brentisiaethau lefel 6. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu llwybr amgen, dysgu yn seiliedig ar waith, at radd. Wrth gwblhau'r rhaglen, byddwch yn derbyn gradd prifysgol lawn o un o'n prifysgolion rhanbarthol. Mae cymhwyso sgiliau a gwybodaeth a ddysgir yn y gweithle yn elfen allweddol o brentisiaeth gradd.









Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Beth yw Manteision Uwch Brentisiaethau neu Brentisiaethau Gradd?

## Fel Cyflogwyr:

Gallwch recriwtio prentis ar unrhyw lefel, p'un a ydynt newydd ymuno â'r gweithlu neu'n ceisio ail-hyfforddi mewn sector newydd, yn ddibynnol ar eich anghenion busnes.

Mae prentisiaethau'n ffordd wych o gyflwyno safbwyntiau newydd, annog arloesedd, creu syniadau newydd a darparu cyfleoedd i staff herio eu hunain a thyfu'n broffesiynol gyda chi.

Hefyd, mae prentisiaethau yn opsiwn gwych os ydych yn gobeithio uwch-sgilio neu ail-sgilio eich gweithlu presennol. Pa ffordd well i gyfoethogi gallu eich gweithwyr ac ychwanegu gwerth i'ch tîm na dysgu wrth iddynt weithio!


Drwy ddefnyddio uwch brentisiaid, gallwch:


- Fuddsoddi yn eich gweithwyr presennol drwy eu cefnogi i ddatblygu sgiliau newydd
- Datblygu staff gyda chalibr uchel
- Tyfu eich tîm
- Gwella cynhyrchedd

Yn ogystal, gall fod cyllid* ar gael i gyflogwyr sy'n recriwtio prentisiaid. I wybod mwy ac i weld p'un a ydych chi'n gymwys am gyllid, dilynwch y ddolen.

* Yn amodol ar gymhwyster

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership





# Beth yw Manteision Uwch Brentisiaethau neu Brentisiaethau Gradd?

## Fel Unigolyn:

Mae prentisiaethau ar gael mewn amrediad eang o rolau a sectorau gwaith. Mae prentisiaethau ar gael sy'n gweddu i bawb, waeth beth fo lefel eich sgiliau neu lle'r ydych chi ar eich llwybr addysg neu lwybr gyrfa. Os ydych chi'n gadael yr ysgol, yn gorffen yn y coleg neu'n graddio o brifysgol, mae'n bosib mai prentisiaeth fydd y cam nesaf i chi.

Mae Uwch Brentisiaethau yn gyfle gwych i ennill profiad ymarferol, dysgu sgiliau newydd ac ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol i bawb sydd dros 16 mlwydd oed*.

Fel uwch brentis, mae gennych gyfle i:

- Weithio ochr yn ochr â staff profiadol
- Datblygu sgiliau sy'n benodol i swydd
- Ennill cyflog wrth weithio a chael tâl gwyliau
- Cynyddu eich potensial i ennill arian
- Ennill cymhwyster cydnabyddedig heb dalu unrhyw ffioedd
- Cael mynediad at becyn cefnogaeth llawn, waeth beth fo'ch anghenion



* Yn amodol ar gymhwyster

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Pam Dewis Uwch Brentisiaeth neu Brentisiaeth Gradd

P'un a ydych yn dymuno dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, mae prentisiaethau ar gael yn ddwyieithog, sy'n rhoi cyfle i chi ddysgu drwy eich dewis iaith.

Mae prentisiaethau yn ffrwd ddysgu hygyrch, ac mae cefnogaeth ar gael i unigolion gydag anawsterau neu anableddau dysgu.

Beth fyddwch chi'n ei gael?

- Rhaglen wedi'i hariannu sy'n darparu'r sgiliau a'r wybodaeth gywir ar gyfer eich gyrfa
- Sgiliau cyflogadwyedd
- Hyfforddiant rheolaidd yn y sgiliau penodol i'ch helpu i wneud y Gwaith
- Y cyfle i ennill cymwysterau cydnabyddedig
- Cyfle i wneud cynnydd a thyfu'n bersonol ac yn broffesiynol â'ch cyflogwr
- Hwb enfawr i'ch hyder

Gallwch ddod yn brentis mewn unrhyw gam o'ch gyrfa*, felly beth am weld beth sydd ar gael i chi?


* Yn amodol ar gymhwyster

# Llwybrau Prentisiaethau

Mae gan brentisiaethau lwybrau a chyfleoedd clir i wneud cynnydd, ond fe allwch ddechrau ar eich siwrne fel prentis ar unrhyw lefel*.

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich prentisiaeth, nid oes angen i'ch siwrne ddod i ben ar y pwynt hwnnw. Gallwch barhau i ddatblygu eich sgiliau drwy gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus eraill.

* Yn amodol ar gymhwyster




Nodwch: Nid yw pob llwybr ar gael ym mhob lefel

# Beth sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig - Uwch Brentisiaethau

- 4 Lefel 4 - Prentisiaeth Uwch
- 5 Lefel 5 - Prentisiaeth Uwch
- 6 Lefel 6 - Prentisiaeth Gradd

| | Coleg Cambria | GLLM | ALS | Cambrian Training | itec | Myrick |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifeg | 4 | 4 | 4 | 4 | | |
| Gweinyddiaeth Fusnes | 4 | 4 | 4 | 4 | | |
| Gofal Plant, Chwarae, Dysgu a Datblygu | 4 5 | 4 5 | | 4 5 | 4 5 | |
| Adeiladu | 4 | 4 | | | | |
| Rheoli Treftadaeth Ddiwyllianol | | 5 | | | | |
| Dadansoddeg Data | 4 | | 4 | | | |
| Marchnata Digidol | 4 | 4 | | 4 | | |
| Peirianneg | 4 | 4 | | | | 4 |
| Ceffylau (Equine) | 4 | | | | | |
| Cynhyrchu Bwyd a Diod | 4 | | | 4 | | |
| Therapi Gwallt a Harddwch | | 4 | | | | |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 4 5 | 4 5 | | 4 5 | 4 5 | |

| | Coleg Cambria | GLLM | ALS | Cambrian Training | itec | Myrick |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Garddwriaeth | 4 | | | | | |
| Lletygarwch | 4 | 4 | | 4 | 4 | |
| Rheolaeth Adnoddau Dynol | | 5 | 5 | | | |
| Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad | 4 | 4 | 4 | | | |
| Gweithwyr Proffesiynol Diogelwch Gwybodaeth | | | 4 | | | |
| Isadeiledd TG | | | 4 | | | |
| Gweithwyr Proffesiynol Meddalwedd TG y We a Thelathrebu | 4 | | 4 | | | |
| Datblygu Datrysiadau TG | | | 4 | | | |
| Gwyddorau Labordy a Bywyd | 4 | | | | | |
| Rheolaeth | 4 5 | 4 5 | 4 5 | 4 5 | 4 5 | 4 5 |
| Gwaith Chwarae | | | | 5 | | |
| Rheoli Prosiect | | 4 | 4 | | | |
| Darparu Gwasanaethau Aariannol - Yswiriant | | | 4 | | | |
| Darparu Gwasanaethau Ariannol - Bancio Manwerthu | | | 4 | | | |
| Ynni Adnewyddadwy | | | | 4 | | |
| Rheoli Manwerthu | | | | 4 | | |
| Rheolaeth y Gadwyn Gyflenwi | | | 5 | | | |

# Beth sydd gan Gogledd Cymru i'w gynnig - Prentisiaethau Gradd

| | Prifysgol Bangor | Prifysgol Wrecsam Glyndwr | Y Brifysgol Agored Yng Nghymru | Coleg Cambria | GLLM |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgynhyrchu Uwch | | 6 | | 6 | |
| Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Gwyddor Data Gymhwysol | 6 | | | 6 | 6 |
| Diogelwch Seiber Gymhwysol | 6 | 6 | | 6 | 6 |
| Peirianneg Awyrennaeth | | | | 6 | |
| Peirianneg Fecanyddol | 6 | 6 | | | 6 |
| Peirianneg Drydanol | 6 | 6 | | | 6 |
| Peirianneg Ynni Adnewyddadwy | | 6 | | | |

I ganfod mwy am y ddarpariaeth ranbarthol a'r llwybrau penodol, cysylltwch yn uniongyrchol â'r colegau a bydd modd iddynt roi cefnogaeth ac arweiniad addas er mwyn i chi ddod o hyd i'r cwrs cywir!

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Astudiaethau Achos



“Roeddwn yn awyddus i ychwanegu at fy nghymwysterau ar ôl gorffen fy ngradd. Roedd prentisiaeth yn opsiwn perffaith i mi oherwydd gallwn ddechrau fy ngyrfa yn ogystal â pharhau i ddatblygu fy sgiliau.”

***Prentis Rheoli Prosiect, Lefel 4***

Rydym wedi cyflogi dau brentis ac mae’r ddau wedi bod yn ychwanegiadau gwerthfawr i’r tîm. Mae’n fuddiol ar y ddwy ochr gan ei fod yn rhoi teimlad i’r prentis o weithio gyda sefydliadau amrywiol o fewn ein partneriaeth tra’n caniatáu i’r partneriaid hynny ddod i adnabod y prentis.

***Cyflogwr Lleol***





“Rwyf wedi magu hyder a sgiliau newydd ac wedi dod â gwerth a syniadau ffres i fewn i’m sefydliad. Efallai fysa hyn heb ddigwydd heb fod ar cynllun Prentisiaeth.

***Prentis Gweinyddiaeth Busnes, Lefel 4***

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Dechrau Arni

## I Gyflogwyr

Am wybodaeth a chefnogaeth ddi-duedd, rhad ac am ddim, cysylltwch â Busnes Cymru neu cysylltwch â'r Mynegiant o Ddiddordeb yn y ddolen hon a bydd aelod o'r Tîm Prentisiaethau yn cysylltu â chi.

Mae Busnes Cymru yn adnodd gwych i ddod i wybod mwy am Uwch Brentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd. Dilynwch y dolenni hyn i ddysgu mwy:

- Prentisiaethau Uwch
- Prentisiaethau Gradd

## I Unigolion

Os ydych chi wedi cael eich ysbrydoli gan y cyfle i ennill cyflog wrth ddysgu, cymerwch y cam cyntaf tuag at eich dyfodol:

- I ddysgu mwy am beth mae'n ei olygu i fod yn brentis, ewch draw i llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth neu ffoniwch 0800 028 4844.
- I ystyried y mathau o brentisiaethau sydd ar gael yng ngogledd Cymru, edrychwch ar y bwrdd swyddi gwag prentisiaid hwn.
- Os nad ydych chi'n siŵr a yw prentisiaeth yn addas i chi, ewch draw i Cymru'n Gweithio am rai awgrymiadau ar chwilio am y gefnogaeth gywir, dysgu sgiliau newydd, CV a chyngor ar waith.



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Cysylltwch â Ni

Coleg Cambria

employers@cambria.ac.uk

0300 30 30 006

cambria.ac.uk/prentisiaethau/

Grŵp Llandrillo Menai

busnes@llandrillomenai

08445 460 460

gllm.ac.uk/cy/course-type/apprenitceships

Prifysgol Bangor University

admissions@bangor.ac.uk

01248 383 717

bangor.ac.uk

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University

enquiries@glyndwr.ac.uk

01978 293 439

glyndwr.ac.uk/cy/busnes/prentisiaethau-gradd/

The Open University Y Brifysgol Agored Wales Cymru

business@open.ac.uk

0300 303 0122

open.ac.uk/apprenticeships

Prifysgol Abertawe Swansea University

eng-degree-apprenticeships@swansea.ac.uk

01792 295514

Prentisiaethau Gradd - Prifysgol Abertawe (swansea.ac.uk)

Cambrian Training Hyfforddiant Cambrian

info@cambriantraining.com

01938 555 893

cambriantraining.com

als

info@alstraining.org.uk

029 2267 7020

Cymraeg.alstraining.org.uk

itec Skills and Employment

enquiries@itecskills.co.uk

029 2066 3800

Itecskills.ac.uk/apprenticeships/

myrick

mts@myrick.co.uk

01686 668670

myrick.co.uk/apprenticeships

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

info@rspnorth.wales

#GrymusoGogleddCymru




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

APPRENTICESHIPS.
A GENIUS DECISION.

Coleg Cambria | Grŵp Llandrillo Menai | als | Cambrian Training / Hyfforddiant Cambrian | itec Skills and Employment | Myrick gwasanaethau hyfforddi training services | Prifysgol Bangor University | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam / Wrexham Glyndŵr University | The Open University / Y Brifysgol Agored Wales Cymru | Prifysgol Abertawe Swansea University